# Hen greithiau gweithfeydd glo'r gogledd



Fe gollodd Geraint Dodd sawl perthynas iddo yn nhrychineb pwll glo Gresford ger Wrecsam yn 1934.

Er nad oedd wedi'i eni ar y pryd, mae tirluniau'r artist o'r Hôb yn Sir y Fflint yn talu teyrnged gynnil i ddau ewythr a gafodd eu lladd yno.

Mae ei dirluniau hardd yn dangos creithiau'r hen weithfeydd glo ac olion hen ddiwydiant er mwyn tanlinellu'r berthynas sydd rhwng dyn a'r tir.

Mae'r gwaith yn rhan o arddangosfa yn oriel Ffin y Parc, Llanrwst.

"Dw i'n falch fod pobol fel yna wedi gweithio mor galed a rhoi eu bywydau i'r gwaith," meddai Geraint Dodd. "Ond dw i ddim yn hoffi'r bobl oedd piau'r pyllau glo a'r chwareli achos roedden nhw'n greulon iawn at eu gweithwyr."

Mae o wastad wedi bod yn frwd am gerdded, dringo a mynydda.

"Dw i wedi bod yn hoffi crwydro o gwmpas chwareli ers pan oeddwn i'n fach," meddai'r artist, "a meddwl pa fath o waith roedden nhw'n ei wneud. Ac os bydda i'n cerdded mynydd, dw i'n hoffi meddwl pa fath o olion sy' yna ers yr oes o'r blaen. Ac mae rheiny'n dangos eu hunain yn y gwaith."

Bydd yn sgetsio weithiau yn ardal y Rhondda, gan fod ei ferch yn byw yn yr ardal, neu'n darlunio o doriadau papurau newydd. Ond nid yw union leoliad y tirlun yn bwysig, mewn gwirionedd.
"Mae llawer ohonyn nhw yn y meddwl. Dw i'n mynd i rywle ac mae rhywbeth yn mynd i mewn i'r meddwl. Efallai misoedd wedyn, mae rhywbeth yn clicio a dw i'n gweithio arno fo."

Weithiau, bydd yn defnyddio *collage* i awgrymu'r haenau a'r hanes yn y tir.

"Dw i eisiau i bobol … feddwl sut mae'r paent wedi mynd i lawr a phethau fel gwead. Dw i eisiau i bobol feddwl am y llun."

Bu'n athro celf yng ngogledd ddwyrain Cymru nes ymddeol bymtheg mlynedd yn ôl a'r disgyblion oedd y beirniaid mwyaf gonest …

Nid yw Geraint Dodd yn hoffi'r traddodiad tirluniau poblogaidd yng Nghymru.

"(Mae) llawer ohonyn nhw," meddai "yn beth dw i a fy ffrindiau'n eu galw yn '*pretty Snowdonian pictures*'. Dw i'n trio osgoi gwneud hynna."

"Hen greithiau gweithfeydd glo'r gogledd,"
*Golwg*, Cyfrol 24, Rhif 20, Ionawr 26, 2012, tud. 19